| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **10 GORFFENNAF 2018** |
| **TEITL:** | **Adroddiad Blynyddol Cyngor Gwynedd ar weithrediad y Safonau Iaith** |
| **AWDUR:** | **Gwenllian Mair Williams<br>Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i sylw'r Aelodau** |

**1 CEFNDIR**

1.1 Yn unol a gofynion y Safonau Iaith, a osodwyd ar y Cyngor dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gofyn i'r Cyngor "lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi sy'n delio â'r modd y bu [ichi] gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr [oeddech] o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy."

1.2 Mae'r Safonau penodol sydd yn ymwneud efo adrodd blynyddol (158, 164 ac 170) yn gofyn yn benodol i ni gynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- *nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau*
- *nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 151);*
- *nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);*
- *os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);*
- *nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn –*
  - *i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol*
  - *ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,*
  - *iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu*
  - *iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);*

1.3 Y tu hwnt i'r wybodaeth yma, mae rhyddid i'r Cyngor gynnwys unrhyw wybodaeth y teimlwn sydd yn ychwanegu at ddealltwriaeth o'r camau penodol a gymrir i weithredu'r Safonau.

1.4 Mae’r adroddiad a atodir felly yn Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn hyd at Mawrth 2018, ac mae’n cynnwys y wybodaeth benodol y gofynnir amdano yn Safonau 158, 164 ac 170 yn ogystal ag ychydig o wybodaeth ychwanegol.

## 2. ARGYMHELLION

2.1 Gofynnir i’r aelodau:

- derbyn cynnwys yr Adroddiad Blynyddol er gwybodaeth.